

DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN CYNGOR GWYNEDD 2021/22

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod cyfrifoldeb arno fel cyflogwr i fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer achosion o gaethwasiaeth fodern ac i adrodd ar achosion o'r fath i'r cyrff perthnasol.

Mae'n ymddangos fod achosion o gaethwasiaeth fodern posib yng Nghymru yn cynyddu wrth i ymwybyddiaeth ehangu, gyda 123 o gyfeiriadau yn cael ei gwneud yn 2016.

Gall caethwasiaeth fodern fod ar unrhyw un o'r ffurfiau a ganlyn:-

- Puteindra gorfodol
- Masnachu plant
- Camfanteisio troseddol
- Caethwasiaeth domestig
- Llafur gorfodol
- Gwerthu organau
- Camfanteisio'n rhywiol

Ym mis Gorffennaf 2018, hefyd, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi sydd yn anelu at sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesebol. Gweler Cynllun Gweithredu'r Cyngor diweddaraf mewn perthynas â'r ymrwymadau o fewn y Cod.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Caethwasiaeth-Fodern/Cynllun-Gweithredu-Cod-Ymarfer.pdf>

Ers ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2019, mae'r Cyngor erbyn hyn yn gofyn, fel rhan o'r broses tendro / contractio, am sicrwydd gan ein cyflenwyr nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern yn ei sefydliadau nag ei chadwyn cyflenwi. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'w gyflenwyr gofyn am sicrwydd tebyg gan ei chadwyn cyflenwi ei hunain.

Yn ychwanegol, mae termau perthnasol yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesebol wedi ei ymgorffori yn Nhermau ac Amodau Safonol y Cyngor.

Mae staff allweddol Caffael, Categori ac Adnoddau Dynol y Cyngor wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn cadwyni cyflenwi.

Er mwyn cefnogi'r agenda pwysig yma ymhellach, mae nifer o staff rheng flaen sydd posib hefo cyfle i adnabod yr arwyddion o gaethwasiaeth fodern fel rhan o ei gwaith dydd i ddydd, wedi cwblhau modiwl Grŵp Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru. Mae'r modiwl e-ddysgu wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad hefo Heddlu Gogledd Cymru a sefydliadau arbenigol eraill.

Mae gan y cyhoedd a staff yr un cyfrifoldeb i fod yn effro i achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu fusnesau sy'n defnyddio llafur gorfodol. Os oes gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag unrhyw un o'r cyrff a ganlyn :-

Heddlu Gogledd Cymru : **Cysylltu â 101 (neu 999 mewn Argyfwng)**

Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern: **Cysylltu â 0800 0121700**

Crimestoppers : **Cysylltu â 0800 555 111**

Uwch Reolwr Tai a Llesiant : **Cysylltu â 01766 771000**

Cyswllt Corfforaethol ar faterion Caethwasiaeth Fodern

Yn ystod y cyfnod Mawrth 2020 hyd at Mawrth 2021, derbyniwyd 5 achos mewn perthynas â Chaethwasiaeth fodern posib / masnachu pobl yng Ngwynedd ger y Fecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol gyda rhain yn cael ei chyfeirio at y cyrff perthnasol i'w harchwilio ymhellach.